# Canlyniad yr Adolygiad Annibynnol o Sector y Cynghorau Cymuned a Thref

## PWRPAS

1. Pwrpas y papur hwn yw rhoi trosolwg o'r canfyddiadau a'r argymhellion a gyflwynwyd i Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus gan yr Adolygiad Annibynnol o Sector y Cynghorau Cymuned a Thref.

## CEFNDIR

2. Sefydlwyd Adolygiad Sector y Cynghorau Cymuned a Thref ym mis Gorffennaf 2017 gan Llywodraeth Cymru.

3. Sefydlwyd panel annibynnol, trawsbleidiol, i:
   - archwilio rôl bosibl llywodraeth leol islaw cynghorau Awdurdodau Lleol, gan dynnu ar arfer gorau
   - diffinio'r model(au)/strwythur(au) mwyaf priodol i gyflawni'r rôl hon
   - ystyried sut y dylid cymhwyso'r modelau a'r strwythurau hyn ledled Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyried unrhyw sefyllfaoedd lle na fyddent yn angenrheidiol nac yn briodol.

4. Gellir gweld manylion llawn aelodaeth y panel yn Atodiad A.

5. Ers ei sefydlu, aeth y Panel ati i gynnal archwiliad eang i rôl allweddol cynghorau cymuned a thref yng Nghymru yn ogystal â datblygu dealltwriaeth o'r sector a'r heriau y mae'n eu hwynebu. I gefnogi hyn, cymerodd y Panel dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig gan randdeiliaid allweddol yn y sector yn ogystal â chynghorau cymuned a thref eu hunain.

6. Yn ogystal, datblygodd y Panel becyn o weithgarwch ymgysylltu a gynhaliwyd rhwng Hydref 2017 a Mai 2018. Roedd hyn yn cynnwys cylchlythyrau bob dau fis a anfonwyd at bob cyngor cymuned a thref a rhanddeiliaid allweddol a nodwyd gan y Panel; pedwar digwyddiad mawr i randdeiliad wedi'u hanelu at bob unigolyn gyda diddordeb (er bod llawer o'r rhai a oedd yn bresennol yn cynrychioli cyngor cymuned a thref); pedwar gweithdy wedi'u targedu at Awdurdodau Lleol; a phedwar arolwg ar-lein wedi'u teilwra a’u targedu at gynghorau cymuned a thref, Awdurdodau Lleol, y cyhoedd a phobl ifanc.

7. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd gan y Panel dros 1,000 o bwyntiau cyswllt â rhanddeiliaid, gan gynnwys dros 700 o ymatebion i gwestiynau eu harolwg.

## TROSOLWG O GANFYDDIADAU AC ARGYMHELLION

8. Cyflwynodd y Panel eu canfyddiadau a'u hargymhellion i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar 17 Gorffennaf.

9. Yn eu cyflwyniad, mynegodd y Panel eu bwriad i ganolbwyntio ar bedwar prif agwedd yn yr adroddiad:
   - Cynghorau Cymuned a Thref - Beth ydyn nhw
   - Cynghorau Cymuned a Thref - Beth maen nhw'n ei wneud
   - Cynghorau Cymuned a Thref - Sut maen nhw'n ei wneud
   - Cynghorau Cymuned a Thref - Sut maent yn cael eu dal i gyfrif

10. Mae'r Panel wedi cadarnhau eu bod yn gweithio i ddatblygu eu canfyddiadau a'u hargymhellion i’w cynnwys mewn adroddiad ffurfiol, gyda'r bwriad o gyflwyno'r adroddiad wedi'i gwblhau yn yr Hydref. Yn eu hadroddiad terfynol, mae'r Panel wedi cadarnhau eu bwriad i dynnu sylw at eu hargymhellion allweddol o blith y deugain a chwech a gyflwynwyd gyda'r canfyddiadau a ddaeth i'r amlwg. Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion a ddaeth i'r amlwg i'w gweld yn Atodiad B.

**CAMAU NESAF**

11. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion a bydd yn rhoi ymateb ffurfiol ar ôl iddo dderbyn yr adroddiad terfynol gan y panel.

**TRAFODAETH**

12. Mae’r canfyddiadau a'r argymhellion a ddaeth i'r amlwg yn gosod gweledigaeth ar gyfer dyfodol sector y cynghorau cymuned a thref. Mae gwaith y Panel wedi bod yn eang ac mae eu canfyddiadau yr un mor gynhwysfawr, gan ymdrin â beth yw cynghorau cymuned a thref; beth maen nhw'n ei wneud; sut maen nhw'n ei wneud; a sut y cânt eu dal i gyfrif.

13. Er nad ydynt wedi rhoi barn am nifer neu faint cynghorau, mae'r Panel yn argymell y dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o ffiniau i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn addas i'r pwrpas ar gyfer y dyfodol.

14. Mae'r Panel wedi galw am fwy o eglurder ynghylch pwrpas a rôl cynghorau cymuned a thref, gyda gwahaniaeth cliriach rhwng yr hyn y mae cyngor cymuned yn gyfrifol amdano a'r hyn y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdano. Maent wedi argymell y dylai gwasanaethau 'sy’n seiliedig ar le' yn gyffredinol fod yn gyfrifoldeb cynghorau cymuned ac

15. Mae'r Panel yn cydnabod y dylai pob cyngor chwarae'r un rôl ond y dylent gael y cyfle i chwarae'r rôl honno yn wahanol, p'un a ydynt yn dewis ei chyflwyno eu hunain, grwpio gyda'i gilydd i gyflwyno neu gomisiynu gwasanaethau gan eraill.

16. Mae'r clerc yn ffynhonnell cyngor allweddol i gyngor cymuned a thref ac mae’r Panel yn credu bod angen i glercod fod â’r adnoddau priodol i chwarae'r rôl honno o ran arbenigedd ac amser. Mae angen cymorth cynghorau eraill hefyd a chynnig cyfleoedd i safoni dulliau (fel telerau ac amodau), darparu cefnogaeth hyblyg i gynghorau a’i gwneud yn bosibl i sicrhau dilyniant gyrfa. Rydym yn argymell y dylid penodi clercod o restr genedlaethol gymeradwy. Yn ychwanegol, mae'r panel yn argymell y dylai pob clerc feddu ar gymhwyster proffesiynol.

17. Er bod gan gynghorau cymuned a thref y gallu i godi'r praesept, ac ni ddylent fod yn amharod i wneud hynny, mae'r Panel o'r farn y dylid sicrhau bod cynghorau cymuned a thref yn ymwybodol o ffynonellau cyllid amgen, ac yn cael mwy o fynediad atynt. Maent hefyd yn credu, pan fydd cynghorau cymuned a thref yn dod yn gyfrifol am wasanaeth neu swyddogaeth gan awdurdod lleol, y dylai'r arian (gan gynnwys cyfalaf neu gronfeydd wrth gefn) ddod gyda’r gwasanaeth, ac y dylai unrhyw incwm a gynhyrchir sy'n seiliedig ar le gael ei dderbyn gan y gymuned. Maent yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gellir cyflawni hyn orau.

18. Mae'r Panel yn cydnabod bod rôl cynghorydd cyngor cymuned a thref yn newid ac yn argymell y dylid bod â disgrifiad cliriach o’r hyn a ofynnir gan gynghorwyr yng ngoleuni'r rôl newydd y maen nhw'n ei awgrymu. Rydym yn argymell bod pecyn craidd o hyfforddiant yn cael ei wneud yn orfodol ar gyfer pob cynghorydd fel gofyniad i dderbyn y swydd a bod yr hyfforddiant gorfodol hwn yn cael ei ailadrodd yn rheolaidd (pob tymor etholiad).

19. Wedi clywed llawer o dystiolaeth a barn gref o blaid ac yn erbyn aelodau sy’n gwisgo ‘dwy het’ mae'r Panel wedi dod i'r casgliad na ddylai cynghorwyr sir fod yn gynghorwyr cymuned hefyd.

20. Mae'r Panel yn galw am well perthynas rhwng cynghorau cymuned ac awdurdodau lleol. Maent yn argymell y dylai pob Awdurdod Lleol fod â fforymau partneriaeth rheolaidd gyda Chynghorau Cymuned a Thref yn seiliedig ar bartneriaeth gyfartal gyda nod cyffredin. Dylid bod â siarteri ystyrlon hefyd, neu ffyrdd eraill o ffurfioli'r berthynas, a dylai awdurdodau lleol fod â swyddog cyswllt penodol ar gyfer cysylltu â chynghorau cymuned a thref yn y rhanbarth.

21. Mae bod yn atebol yn ddemocrataidd yn un o brif nodweddion cynghorau cymuned a thref ac mae'r panel o'r farn y dylid cryfhau hyn. Maent yn gwneud nifer o argymhellion, gan gynnwys mewn perthynas â chynnal etholiadau p'un a yw seddi yn cael eu herio ai peidio (ac y dylid ystyried goblygiadau ariannol hyn i gynghorau) ac y dylid gosod cyfyngiad ar ba mor hir y gallai aelodau cyfetholedig wasanaethu. Maent hefyd yn galw am weithredu i annog pobl i sefyll am etholiad, ac i gynyddu amrywiaeth y rhai sy'n sefyll.

22. Gwahoddir Cyngor Partneriaeth Cymru i ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n dod i'r amlwg.

**GWEITHREDU**

23. Gwahoddir Cyngor Partneriaeth Cymru i ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion sy'n dod i'r amlwg.

**Laurie Davies, Partneriaethau Llywodraeth Leol**
**Llywodraeth Cymru**

Awst 2018

# ATODIAD A: Aelodaeth y Panel Adolygu Annibynnol

Mae'r Panel Adolygu Annibynnol yn cynnwys cynrychiolwyr a enwebwyd gan bleidiau gwleidyddol, ynghyd â dau unigolyn a benodwyd drwy broses mynegi diddordeb, ar sail eu harbenigedd a'u profiad o gynghorau cymuned a thref neu weithgarwch arall yn y gymuned.

**Pwy sydd ar y Panel?**

- Gwenda Thomas (Cyd-gadeirydd) – Yn cynrychioli'r Blaid Lafur.
- Rhodri Glyn Thomas (Cyd-gadeirydd) – Yn cynrychioli Plaid Cymru.
- Y Cynghorydd Kathryn Silk – Yn cynrychioli'r Democratiaid Rhyddfrydol.
- William Graham – Yn cynrychioli'r Ceidwadwyr.
- Jessica Morgan – Rhwydwaith Gweithredu Lleol Sir Benfro ar gyfer Menter a Datblygu.
- Edward Humphreys – Clerc Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn a Chlerc Cyngor Cymuned yr Ystog.

# ATODIAD B: Panel Adolygu Annibynnol ar Gynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru - Canfyddiadau ac Argymhellion Amlinellol

## Cynghorau Cymuned a Thref: Beth ydyn nhw

| | Canfyddiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| 1.1 | Gwnaed yr achos dros gadw Cynghorau Cymuned a Thref ar y sail y gallant:<br>• ddarparu / comisiynu gwasanaethau<br>• cynrychioli a dylanwadu<br>• galluogi eraill i weithredu<br>• bod yn sianel gyfathrebu i'r gymuned ac o'r gymuned.<br><br>Nodweddion allweddol Cyngor Cymuned a Thref, nad yw modelau llywodraethu cymunedol eraill yn eu darparu, yw eu bod yn gweithredu ar lefel leol iawn ac yn atebol yn ddemocrataidd.<br><br>Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun Diwygio Llywodraeth Leol ehangach.<br><br>Oherwydd eu natur, mae eu sail statudol yn angenrheidiol ar gyfer eu rôl. | Credwn y dylid cadw system o Gynghorau Cymuned a Thref.<br><br>Er ein bod yn teimlo bod yna ddiffygion wedi bod yn y system gyfredol byddai disodli’r model yn ei gyfanrwydd yn anodd gan nad oes unrhyw ateb gwahanol a fyddai'n gweddu ar draws Cymru.<br><br>Nid yw hyn yn golygu y dylai cynghorau cymuned barhau fel y maent - credwn fod lle i fod yn radical yn y modd y maent yn gweithredu yn y dyfodol. |
| 1.2 | Dylai <u>pob</u> ardal gael ei chefnogi gan Gyngor Cymuned a Thref.<br><br>Oni bai y ceir cynghorau o’r fath ym mhob ardal, os yw’r rôl a ragwelir ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref i gael ei gwireddu fe fydd yna ardaloedd lle bydd angen heb ei ddiwallu. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod cymunedau lleol yn ymwybodol o fanteision cael Cyngor Cymuned a Thref.<br><br>Mae yna heriau yn y Cynghorau Tref a Chymuned presennol o ran denu nifer priodol o unigolion i sefyll ar gyfer etholiad, felly mae angen gwneud mwy na dim ond sefydlu Cynghorau Cymuned a Thref ym mhob ardal drwy Gymru. | Rydym o'r farn bod sefydlu cynghorau o'r fath ym mhob ardal yn bwysig ac mai dyma’r dewis gorau ac y byddai hyn yn sylfaen i argymhellion eraill. Byddem yn disgwyl i Lywodraeth Cymru wneud pob ymdrech i annog, hyrwyddo a chefnogi cymunedau lleol nad oes ganddynt gynghorau ar hyn o bryd i'w sefydlu. |
| 1.3 | Un o gryfderau Cynghorau Cymuned a Thref yw eu bod wedi'u lleoli yn lleol a bod ganddynt ymdeimlad naturiol o gymuned.<br><br>Credwn nad mater i ni fel Panel yw tynnu llinellau ar fap, na chynnig gostyngiad mympwyol mewn niferoedd. Mae'n iawn fod ffiniau'n berthnasol ac yn addas i'r pwrpas er mwyn gwasanaethu'r gymuned leol yn gywir.<br><br>Fodd bynnag, nid yw rhai o ffiniau presennol | Credwn y dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o ffiniau Cynghorau Cymuned a Thref yn ddi-oed er mwyn sicrhau bod ardaloedd cymunedol yn diwallu anghenion eu cymuned ar hyn o bryd ac yn y dyfodol a'r rôl a ragwelir ar eu cyfer yn y dyfodol a fydd yn deillio o ganfyddiadau diweddarach.<br><br>Yna dylid adolygu ardaloedd cymunedol yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau i |

| | | |
|---|---|---|
| | Cynghorau Cymuned a Thref bellach yn gywir i wasanaethu eu cymunedau orau, er enghraifft o ran adlewyrchu datblygiadau tai diweddar. Mae gofyniad i Awdurdodau Lleol adolygu trefniadau cynghorau cymuned yn rheolaidd, ond nid yw hyn bob amser yn cael ei gyflawni.<br><br>Nid ydym ychwaith yn credu y bydd rhai Cynghorau Cymuned a Thref yn gynaliadwy nac yn gallu cyflawni'r rôl yr ydym yn ei rhagweld ar eu cyfer os ydynt yn aros fel y maent. Bydd angen i lawer o Gynghorau Cymuned a Thref gydweithio i gyflawni'r rôl a ragwelir mewn canfyddiadau diweddarach. Efallai y bydd rhai Cynghorau Cymuned a Thref yn dewis uno i gyflawni'r rôl honno. | wneud synnwyr wrth i ardaloedd (ac anghenion) newid a datblygu. |
| 1.4 | Mae yna amrywiad sylweddol rhwng Cynghorau Cymuned a Thref ledled Cymru, nid yn unig o ran swyddogaeth ond hefyd o ran capasiti a gallu.<br><br>Mae yna wahanol feintiau o Gynghorau Cymuned a Thref, yn amrywio o'r Cynghorau Cymuned 'micro' bach iawn i Gynghorau Tref mawr iawn.<br><br>Maent hefyd yn gweithredu'n wahanol, er enghraifft, o ran ffurfioldeb llywodraethu. Mae rhai Cynghorau Cymuned a Thref yn darparu gwasanaethau ar hyn o bryd. Mae rhai yn canolbwyntio'n unig ar gynrychioli eu cymuned. Mae gan bob un ei werth.<br><br>Yng nghyd-destun yr adolygiad hwn, y prif ffactor gwahaniaethu yw a ydynt yn gallu (bod ganddynt y capasiti a'r gallu) i gyflawni'r rôl a ragwelwyd gennym ni.<br><br>Nid ydym yn gosod trothwy mympwyol ar gyfer hyn, naill ai o ran daearyddiaeth, poblogaeth neu incwm, er y bydd pob un o'r rhain yn effeithio ar allu cynghorau i weithredu. | Credwn y dylai pob cyngor chwarae'r un rôl yr ydym yn ei hamlinellu mewn mannau eraill ond y dylent fod â'r ehangder i chwarae'r rôl honno'n wahanol p'run a ydynt yn dewis:<br><br>• Ei chyflwyno eu hunain<br>• Grwpio gyda'i gilydd i gyflawni<br>• Comisiynu gwasanaethau gan Gynghorau Cymuned a Thref eraill neu eu Hawdurdod Lleol neu'r Trydydd Sector neu'r Sector Preifat.<br><br>Credwn y dylid disgwyl i **bob** Cyngor Cymuned a Thref fodloni'r meini prawf ar gyfer gweithredu'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol. |
| 1.5 | Mae Cynghorau Cymuned a Thref yn rhan o dirwedd ehangach Llywodraeth Leol. Mae'n bwysig iddynt weithio'n effeithiol ac ar y cyd gydag Awdurdodau Lleol.<br><br>Yn rhy aml, mae'r perthnasoedd hyn yn teimlo fel pe baent yn cael eu gorfodi ac ystyrir Cynghorau Cymuned a Thref fel 'plâu ac nid partneriaid'. Dylai Cynghorau Cymuned a Thref ac Awdurdodau Unedol fod yn bartneriaid cyfartal ac nid ydynt yn atebol i'w gilydd. | Mae angen ymgysylltu cadarnhaol, ystyrlon a chyfartal rhwng Cynghorau Cymuned a Thref ac Awdurdodau Unedol.<br><br>Mae argymhellion diweddarach yn awgrymu sut yr ydym yn credu y gellir cyflawni hyn orau er budd cymunedau ledled Cymru. |

**Cynghorau Cymuned a Thref: Beth maen nhw'n ei wneud**

| | Canfyddiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| 2.1 | Mae angen mwy o eglurder ynghylch pwrpas a rôl Cynghorau Cymuned a Thref, wedi'i lywio gan yr egwyddor o'r hyn y gellir ei wneud yn well yn lleol.<br><br>Dylai fod gwahaniaeth clir rhwng yr hyn y mae cyngor cymuned a thref yn gyfrifol amdano a'r hyn y mae'r awdurdod lleol yn gyfrifol amdano. Bydd hyn yn rhoi eglurder i'r cyhoedd ac yn sbarduno newid.<br><br>Dylai Cynghorau Cymuned a Thref, yn gyffredinol, fod yn gyfrifol am yr holl wasanaethau 'seiliedig ar le' a dylai Prif Gynghorau fod yn gyfrifol am wasanaethau 'seiliedig ar bobl' neu wasanaethau rheoleiddio neu strategol (fel addysg, gofal cymdeithasol ac iechyd yr amgylchedd).<br><br>Rydym wedi penderfynu y dylai 'seiliedig ar le' fod yn unrhyw wasanaethau (dewisol yn bennaf) sy'n gymorth i lesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol y gymuned y gellir ei gysylltu â lle a gall amrywio o le i le, yn hytrach na gwasanaethau seiliedig ar bobl neu wasanaethau rheoleiddiol sy'n fwy tebygol o fod angen gwasanaeth teg ar draws y wlad.<br><br>Rydym yn cydnabod y bydd amrywiadau lle nad yw'r ymylon rhwng y ddau bob amser yn glir, serch hynny, teimlwn ei fod yn darparu gwahaniad cliriach rhwng rôl Cynghorau Cymuned a Thref ac awdurdodau lleol. | Disgwyliwn i wasanaethau seiliedig ar le fod yn gyfrifoldeb Cynghorau Cymuned a Thref. Rydym yn cydnabod y bydd angen cyfnod pontio, ond credwn y dylai'r broses hon ddechrau cyn gynted ag y bo modd.<br><br>Mae ymdriniaeth gyffredinol gan gynghorau lleol sydd â chapasiti a gallu addas yn ofyniad sydd ymhlyg yn hyn. |
| 2.2 | Mae'n hanfodol fod Cynghorau Cymuned a Thref yn gallu gwneud beth bynnag sydd yn eu barn nhw orau i'w cymuned - sy'n ychwanegol at ddarparu'r gwasanaethau sy'n seiliedig ar le a ddisgrifir uchod.<br><br>Dylai Cynghorau Cymuned a Thref fod â'r gallu i ymgymryd â gweithgaredd ychwanegol sy'n atodol ac yn ategu gwasanaethau 'pobl' eraill a ddarperir gan yr awdurdod lleol (yn hytrach na chymryd y rôl eu hunain) cyn belled ag y bo hyn yn seiliedig ar eisiau ac angen lleol.<br><br>Er enghraifft, mae gan Gynghorau Cymuned a Thref rôl allweddol wrth gefnogi gweithredu'r | Mae gan Gynghorau Cymuned a Thref rôl glir i wella lles pobl yn eu hardaloedd ac ni ddylid eu cyfyngu rhag gwneud unrhyw beth yr ystyriant y mae ar eu cymuned ei angen. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant trwy ddarparu gwybodaeth a chymorth sylfaenol yn eu cymunedau.<br><br>Yn eu rôl fel galluogwr gweithgarwch cymunedol, mae Cynghorau Cymuned a Thref yn aml yn ddeorydd ar gyfer syniadau / atebion unigryw a dylid cefnogi hyn. | |
| 2.3 | Rhaid i'r Cynghorau Tref a Chymuned gael y pwerau angenrheidiol iddynt ymgymryd â'r rôl hon a ragwelir ar eu cyfer.<br><br>Er ei bod yn amlwg fod rhai pwerau ar goll o'r fframwaith pwerau sydd ar gael i Gynghorau Cymuned a Thref ni theimlwn y byddai'n ddoeth ceisio rhestru a rhoi sylw i bob un o'r pwerau hyn ar wahân, o ystyried y posibilrwydd i unrhyw set o bwerau ddyddio.<br><br>Gyda chyflwyno'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol a fydd yn digwydd yn fuan, a'r bwriad i sicrhau bod hyn ar gael i gynghorau sy'n bodloni meini prawf penodol, credwn y bydd hyn yn rhoi'r pŵer deddfwriaethol sydd ei angen ar Gynghorau Cymuned a Thref i gyflawni'r rôl a ragwelir ar eu cyfer. | Credwn y dylai fod mwy o eglurder ynghylch y pwerau sydd ar gael i gynghorau cymuned a thref.<br><br>Rydym yn galw ar **bob** Cyngor Cymuned a Thref i fod yn gweithio tuag at fodloni'r meini prawf i allu ymarfer y Pŵer Cyffredinol Cymhwysedd a chredwn ei bod yn rhesymol disgwyl iddynt gyflawni hyn o fewn y tair blynedd nesaf. |
| 2.4 | Mae yna rôl allweddol i Gynghorau Cymuned a Thref barhau i weithredu fel llais lleol y gymuned. Nid haen 'lai' o Lywodraeth Leol yw Cynghorau Cymuned a Thref ond yr haen agosaf at gymunedau.<br><br>Mae eu gwybodaeth leol yn hanfodol ac mae bod yn eiriolwr lleol dros benderfyniadau / cyngor i bartneriaid eraill (gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru a sefydliadau cymunedol eraill) yn rôl allweddol y gallent ac y dylent ei chwarae.<br><br>Dylai un o swyddogaethau allweddol Cynghorau Cymuned a Thref fod fel darparwr pob math o wybodaeth ar gyfer eu cymunedau a bod yn ganolbwynt lleol a/neu weithredu mewn rôl cyfeirio. Maent mewn sefyllfa ddelfrydol i fod yn ganolbwynt eu cymuned a dylent fod yn fecanwaith allweddol ar gyfer rhannu gwybodaeth.<br><br>Mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n berthnasol ar hyn o bryd mewn modd cyfyngedig i gynghorau | Dylai Cynghorau Cymuned a Thref fod â llais cryfach wrth helpu i lunio eu hardaloedd.<br><br>Rydym yn argymell y dylid archwilio rhoi dyletswydd benodol i gynrychioli, er mwyn rhoi pwysau ffurfiol i lais cynghorau cymuned a thref.<br><br>Credwn hefyd y dylid ystyried dyletswydd i ddarparu gwybodaeth.<br><br>Rydym yn argymell, er na ddylent fod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd lles lawn, y dylai fod yn ofynnol i bob Cyngor Cymuned a Thref weithredu yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (y pum ffordd o weithio).<br><br>Rydym yn argymell y dylai Cynghorau Cymuned a Thref - neu gynrychiolydd ohonynt - fod yn gyfranogwr a wahoddir yn statudol ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

| | | |
|---|---|---|
| | cymuned a thref (gyda dyletswydd ar Gynghorau Cymuned a Thref mwy i gymryd camau rhesymol tuag at gyflawni'r cynllun llesiant lleol ar gyfer eu hardal). Os ydym i ddod â budd gwirioneddol i genedlaethau'r dyfodol, mae Cynghorau Cymuned a Thref yn chwarae rhan hanfodol wrth wella lles a dylid cydnabod hyn.<br><br>Er ein bod yn gwybod bod rhai BGC (PSBs) wedi ceisio cael cynrychiolaeth gan gynghorau cymuned a thref yn eu gwaith, rydym yn ymwybodol nad oes gan Gynghorau Cymuned a Thref rôl ffurfiol ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a chredwn y dylid cywiro hyn.<br><br>Er mwyn gallu cyflawni'r rôl hon mae angen i'r Cynghorau Cymuned a Thref fod â'r mandad democrataidd i wneud hynny a byddwn yn dod at hyn yn nes ymlaen. | |
| 2.5 | I fod yn dda am wneud yr uchod, dylai Cynghorau Cymuned a Thref chwarae rhan weithredol wrth ymgysylltu ac ymgynghori â'u cymunedau.<br><br>Er bod enghreifftiau o arfer da yn y maes hwn nid yw hyn yn gyffredinol ac nid oes gan Gynghorau Tref a Chymuned ar hyn o bryd unrhyw ddyletswyddau mewn perthynas ag ymgysylltu â’u cymunedau neu eu cynnwys.<br><br>Credwn y dylai fod safonau ac egwyddorion penodol y dylai’r holl Gynghorau Cymuned a Thref eu dilyn o ran Ymgysylltu â'r Gymuned. | Er mwyn galluogi Cynghorau Cymuned a Thref i gynrychioli eu cymunedau yn wirioneddol, rydym yn argymell bod gan Gynghorau Cymuned a Thref ddyletswydd i ymgysylltu a'u bod yn cael eu cefnogi i wneud hyn yn briodol.<br><br>Dylid cyfuno hyn â gofyniad i nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud, ac i adrodd ar yr hyn y maent wedi'i wneud. Mae mwy o fanylion am sut y gellid cyflawni hyn yn y thema olaf. |

## Cynghorau Cymuned a Thref: Sut maen nhw'n ei wneud

| | Canfyddiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| 3.1 | Mae ar Gynghorau Cymuned a Thref y capasiti a'r gallu i chwarae'r rôl a ragwelir. Nid oes gan lawer ohonynt y capasiti a'r gallu i wneud hyn ar hyn o bryd.<br><br>Mae Cynghorau Cymuned a Thref yn perthyn i ddau gategori, y rheiny sy'n gallu cyflawni'r rôl a ragwelir ar eu cyfer hwy yn annibynnol a'r rheiny na allant wneud hynny.<br><br>Mae amrywiaeth o fodelau gwahanol y gallai Cynghorau Cymuned a Thref ddewis darparu gwasanaethau trwyddynt. Gallent:<br>1) Os ydynt yn ddigon mawr, ddewis darparu gwasanaethau eu hunain.<br>2) Comisiynu'r gwasanaethau hyn oddi wrth eu Hawdurdod Lleol neu Gyngor Cymuned a Thref arall neu'r Trydydd Sector neu'r Sector Preifat<br>3) Cydweithio â Chynghorau Tref a Chymuned yn eu hardal i ddarparu gwasanaethau.<br><br>Mae gwahaniaeth rhwng *trefnu* i ddarparu, a'r *darparu ei hun.* Er enghraifft, gallai cynghorau llai ddod at ei gilydd i gyflawni'r rôl ac yna dewis naill ai ddarparu'n uniongyrchol neu ei chomisiynu.<br><br>Mae gwahaniaeth hefyd rhwng gwasanaethau 'hunangynhwysol' y gellid eu cyflwyno'n ddidrafferth gan gyngor cymuned a gwasanaethau 'trawsffiniol' lle gallai'r gwasanaeth neu'r ased fod o fewn ardal un cyngor ond y byddai'n cael ei ddefnyddio gan gynghorau cyfagos. | Nid ydym yn credu y dylem ragnodi sut y mae Cynghorau Cymuned a Thref yn dewis ymgymryd â'r rôl hon - dylent fod â'r hyblygrwydd i benderfynu pa ddull darparu sy'n gweithio orau iddyn nhw.<br><br>Er mwyn cefnogi ac annog Cynghorau Cymuned a Thref i gydweithio, credwn y dylai Llywodraeth Cymru edrych ar fecanweithiau a chymhellion i annog cydweithredu fel arian cyfatebol i ddarparu prosiect cydweithredol ar y cyd neu gymorth cyfreithiol gyda threfniadau cydweithredol ffurfiol.<br><br>Rydym hefyd yn credu y dylai arweiniad a chefnogaeth fod ar gael, gan gynnwys rhannu arferion da, i gefnogi cynghorau cymuned a thref wrth ddewis y model darparu gorau ar eu cyfer. |
| 3.2 | Mae angen i Gynghorau Cymuned a Thref gael cefnogaeth broffesiynol trwy staff cymwys ac annibynnol.<br><br>Mae'r clerc yn ffynhonnell cyngor allweddol i Gyngor Cymuned a Thref ac mae'n holl bwysig fod y clerc wedi'i baratoi'n briodol i chwarae'r rôl honno o ran arbenigedd ac amser. Rydym wedi clywed y gallant deimlo'n ddiamddiffyn ac yn ynysig.<br><br>Mae yna wrthddywediad a gwrthdaro ar hyn o bryd lle mae clercod yn cael eu cyflogi gan Gynghorau Cymuned a Thref ac un o | Rydym yn argymell y dylai pob clerc feddu ar gymhwyster proffesiynol a dylid disgwyl CILCA fel y cymhwyster isafol disgwyliedig.<br><br>Credwn y dylai Llywodraeth Cymru gyfrannu at y costau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r cymhwyster hwn.<br><br>Rydym yn argymell y dylid penodi clercod o restr genedlaethol gymeradwy. Gallai hyn sicrhau bod gan bob clerc yr achrediad disgwyliedig cyn cael ei gyflogi gan Gyngor Cymuned a Thref yn ogystal |

| | | |
|---|---|---|
| | swyddogaethau allweddol rôl y clerc, fel y swyddog priodol, yw sicrhau bod cynghorau a chynghorwyr yn gweithredu o fewn eu pwerau cyfreithiol.<br><br>Credwn, pe bai clercod yn gweithredu fel rhan o 'gronfa', y gallai hyn ddarparu cymorth cydweithwyr iddynt yn ogystal â chynnig cyfleoedd i safoni dulliau (megis telerau ac amodau); darparu mwy o gyfle am hyblygrwydd ar draws cynghorau; a galluogi dilyniant mewn gyrfa. | â darparu mecanwaith ar gyfer cefnogi clercod. |
| 3.3 | Hyd yn oed gyda'n hargymhelliad uchod, gwyddom fod bwlch mewn gwybodaeth o hyd mewn perthynas â chyngor a chefnogaeth arbenigol i Gynghorau Cymuned a Thref. Mae angen, mewn rhai achosion, i Gynghorau Cymuned a Thref allu manteisio ar gyngor a chymorth arbenigol a phroffesiynol. | Credwn fod angen darparu'r cyngor a'r gefnogaeth hon yn genedlaethol, i sicrhau cysondeb, cywirdeb ac effeithlonrwydd. |
| 3.4 | Mae gan Gynghorau Cymuned a Thref y pŵer i godi praesept ac ni ddylent fod yn gyndyn o wneud hynny lle gwnaed achos clir trwy sgwrs leol â'u hetholwyr.<br><br>Mae yna achosion lle na fyddai praesept, hyd yn oed pan fyddai'n cael ei gynyddu, yn ddigonol i ariannu gwasanaethau yn gynaliadwy.<br><br>Pan fydd gwasanaethau'n cael eu trosglwyddo o Awdurdodau Lleol i Gynghorau Cymuned a Thref, mae disgwyl bod cytundeb yn cael ei ganfod mewn perthynas â chyllid. Gwyddom nad yw hyn yn digwydd ac yn aml gofynnir i Gynghorau Cymuned a Thref ymgymryd â rhwymedigaethau heb gefnogaeth.<br><br>Dylai'r rhagdybiaeth fod, pan fo cynghorau cymuned a thref yn addo darparu gwasanaethau yn seiliedig ar le, fod yr arian /incwm sy'n gysylltiedig â nhw yn dod gyda nhw.<br><br>Mae yna lawer o wahanol ffyrdd i'w harchwilio mewn perthynas â chyllid ychwanegol ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref, gan gynnwys:<br>• Trwy ffynonellau cyllid presennol (ee codi'r praesept, y gallu i fenthyg, pŵer i godi tâl am wasanaeth dewisol)<br>• Mynediad newydd at ffynonellau ariannu (ee cymhwyster am grantiau, pŵer i fasnachu)<br>• Ailddosbarthu cyllid i lywodraeth leol (ee derbyn cyfrannau o drethi annomestig a'r dreth gyngor; Ardoll Seilwaith Cymunedol) | Dylid tynnu sylw Cynghorau Cymuned a Thref at ffynonellau cyllid amgen, a bod â mwy o fynediad atynt.<br><br>Credwn, pan fydd Cynghorau Cymuned a Thref yn cymryd cyfrifoldeb am wasanaeth neu swyddogaeth gan brif awdurdod, fod y cyllid (gan gynnwys cyfalaf neu gronfeydd wrth gefn) yn dod gyda'r gwasanaeth. Yn ychwanegol, dylai unrhyw incwm a gynhyrchir sy'n seiliedig ar le gael ei dderbyn gan y gymuned. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gellir cyflawni hyn orau. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Arian ychwanegol (ee trethi lleol, cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru) | |
| 3.5 | Mae rôl cynghorydd Cyngor Cymuned a Thref yn newid. Gwyddom fod llawer o Gynghorwyr yn meddwl amdanynt eu hunain fel gwirfoddolwyr, er eu bod yn aelodau etholedig. Fel aelodau etholedig, mae'n rhaid iddynt fodloni'r safonau a ddisgwylir ganddynt ynghylch y Cod Ymddygiad a chydymffurfio ag Egwyddorion Nolan.<br><br>Mae tystiolaeth wedi dweud wrthym fod rhai cynghorwyr yn fodlon mynychu hyfforddiant rheolaidd, lle mae rhai yn fwy cyndyn.<br><br>Derbyniwyd llawer o dystiolaeth a sylwadau cryf o blaid ac yn erbyn gwleidyddiaeth plaid. Nid mater i'r Panel hwn yw penderfynu a ddylai gwleidyddiaeth fod yn rhan o'r haen hon o lywodraeth leol.<br><br>Mae yna lawer o gynghorwyr sy'n gwisgo 'dwy het', fel Cynghorydd Cymuned a Thref a Chynghorydd i'r prif awdurdod. Unwaith eto mae'r Panel wedi clywed llawer o dystiolaeth a chafwyd barn gref o blaid ac yn erbyn aelodau sy'n gwisgo dwy het. | Rydym yn cytuno â'r camau a gymerwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i bwysleisio bod Cynghorwyr yn aelodau etholedig.<br><br>Credwn y dylid bod â disgrifiad cliriach o'r hyn y mae 'gofyn' i gynghorydd ei wneud yn wyneb y rôl newydd ar gyfer cynghorau yr ydym wedi'i nodi.<br><br>Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pecyn craidd o hyfforddiant yn orfodol ar gyfer pob cynghorydd fel gofyniad i dderbyn y swydd a bod yr hyfforddiant gorfodol hwn yn cael ei ailadrodd yn rheolaidd (pob tymor etholiad). Dylai hyn gynnwys:<br><br>• *Cod ymddygiad*<br>• *Sefydlu (yn ymdrin â rôl / disgwyliadau)*<br>• *Bod yn gyflogwr*<br>• *Iechyd a diogelwch*<br>• *Cyllid (gofynion sylfaenol craidd)*<br>• *Cynllunio (gan gynnwys gofynion cwblhau ymateb cynllunio)*<br><br>Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru, Cynghorau Cymuned a Thref a Chynghorwyr eu hunain i sicrhau bod yr holl gynghorwyr wedi'u hyfforddi'n llawn a bod ganddynt gynllun hyfforddi.<br><br>Credwn, er y gallai aelodau sy'n gwisgo dwy het helpu o ran ymgysylltu y gallai hefyd achosi gwrthdaro buddiannau, yn ogystal â chyfyngu ar y gronfa ddemocrataidd ac achosi dryswch. Am y rhesymau hyn, rydym yn argymell yn erbyn aelodau sy'n gwisgo dwy het a bod Cynghorwyr Sir yn mynychu Cynghorau Cymuned a Thref yn rheolaidd yn eu wardiau (yn rhinwedd eu swydd) i sicrhau ymgysylltiad. |
| 3.6 | Mae'n bwysig fod cynghorau'n hyblyg. Dylai cynghorau llawn fod yn canolbwyntio ar benderfyniadau strategol ac yn defnyddio system bwyllgorau i fwrw ymlaen â'r manylion. | Rydym yn galw ar Gynghorau Cymuned a Thref i fod yn hyblyg, yn ystwyth ac yn strategol yn y modd y maent yn gwasanaethu eu cymuned (er enghraifft, dylent fod â'r gallu i anfon gwŷs a |

| | | |
|---|---|---|
| | Nid yw trefniadaeth fewnol a swyddogaethau Cyngor Tref a Chymuned bob amser yn addas ar gyfer yr 21ain ganrif. Dylai Cynghorau Cymuned a Thref fod â'r hyblygrwydd i weithredu i ddiwallu anghenion y gymuned.<br><br>Er mwyn eu galluogi i ganolbwyntio ar fusnes craidd y cyngor, mae yna gyfleoedd i rannu swyddogaethau 'swyddfa gefn' gan gynnwys ond heb fod wedi'u cyfyngu'n llwyr i Adnoddau Dynol, Cyflogres, Cyllid ac ati). | phapurau yn electronig.<br><br>Rydym yn argymell y dylai'r holl gynghorau lleol osod Cynllun Dirprwyo gyda'r nod o wneud penderfyniadau yn gyflymach ar lefel sy'n briodol i raddfa a goblygiadau'r penderfyniad.<br><br>Rydym yn credu y dylai Cynghorau Cymuned a Thref gael y dewis a'r hyblygrwydd i weithredu i weddu i anghenion eu cymuned. Rydym yn argymell bod Cynghorau Cymuned a Thref yn archwilio mecanweithiau digidol i gynorthwyo ffyrdd o gyfarfod.<br><br>Rydym hefyd yn argymell y dylai Cynghorau Cymuned a Thref ystyried rhannu swyddogaethau swyddfa gefn (gan gynnwys ond heb fod wedi'u cyfyngu'n llwyr i Adnoddau Dynol, Cyflogres, Cyllid ac ati). |
| 3.7 | Mae'n rhaid i Gynghorau Cymuned a Thref gydweithio'n agos a bod â pherthynas gref â phartneriaid yn yr ardal er budd y gymuned. 'Cydweithio nid cystadlu'<br><br>Yn arbennig, mae angen gwell perthynas ag ALlau. Mae'n bwysig fod gan gynghorau cymuned fynediad at y bobl iawn i siarad â nhw. | Rydym yn argymell y dylai'r holl Awdurdodau Lleol gael fforymau partneriaeth rheolaidd gyda Chynghorau Cymuned a Thref yn seiliedig ar bartneriaeth gyfartal gyda nod cyffredin.<br><br>Dylai siarteri ystyrlon fod yn eu lle, neu ffyrdd eraill o ffurfioli'r berthynas.<br><br>Yn ogystal, dylai Awdurdodau Lleol fod â swyddog cyswllt pwrpasol ar gyfer cysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned yn y rhanbarth. |

## Cynghorau Cymuned a Thref: Sut y cânt eu dal i gyfrif

| | Canfyddiad | Argymhelliad |
|---|---|---|
| 4.1 | Mae'n bwysig fod Cynghorau Cymuned a Thref yn atebol am eu gweithredoedd - maent yn codi arian cyhoeddus ac yn ei wario ac yn cynnal gwasanaethau cyhoeddus. Mae atebolrwydd democrataidd yn un o brif nodweddion eu rôl a dylid cryfhau hyn.<br><br>Yn y pen draw, mae Cynghorau Cymuned a Thref yn cael eu dal i gyfrif gan eu cyhoedd a'r blwch pleidleisio.<br><br>Nid yw pob aelod o Gyngor Cymuned a Thref yn cael eu hethol, mae llawer yn cael eu cyfethol. Mae hyn yn codi cwestiynau am fandad democrataidd y cyngor. Roedd diffyg amlwg o ymgeiswyr yn etholiadau 2017. Mae yna heriau sylweddol, fel yr amlinellir uchod, wrth ddenu mwy o ymgeiswyr.<br><br>Rydym wedi clywed bod rhai Cynghorau Cymuned a Thref yn osgoi cost cynnal etholiad trwy sicrhau bod ganddynt y nifer iawn o ymgeiswyr ar gyfer y seddi sydd ar gael. | Credwn y dylid galw etholiadau p'un a yw seddau yn cael eu hymladd ai peidio. Dylid ystyried goblygiadau ariannol hyn i gynghorau.<br><br>Er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd, rydym yn argymell na ellir cyfethol Cynghorwyr am fwy nag un tymor yn olynol.<br><br>Er mwyn cefnogi ymgeiswyr i sefyll am etholiad, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried postio am ddim i Gynghorau Cymuned a Thref, gan ganiatáu i lenyddiaeth etholiadol gael ei dosbarthu'n ddi-dâl i etholwyr. Rydym yn argymell y dylai hyn fod ar ffurf un eitem o lenyddiaeth ar gyfer pob ymgeisydd ar gyfer pob cartref.<br><br>Rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi etholiadau bywiog gydag ymgyrch genedlaethol yn annog pobl i gamu ymlaen i gynrychioli eu cymunedau. |
| 4.2 | Mae diffyg amrywiaeth ymhlith cynghorwyr presennol y Cynghorau Cymuned a Thref, o ran oedran yn ogystal ag o ran rhywedd a chynrychiolaeth o blith Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Ni all Cyngor Cymuned a Thref fod yn wirioneddol gynrychioliadol oni bai ei fod yn adlewyrchu amrywiaeth ei gymuned.<br><br>Mae gwaith yn parhau i ystyried gostwng yr Oedran Pleidleisio yn genedlaethol. Byddem yn gefnogol i hyn. | Credwn y dylid gwneud mwy i annog amrywiaeth fel rhan o'r ymgyrch genedlaethol i annog cymryd rhan mewn etholiadau.<br><br>Rydym hefyd yn argymell pe bai'r oedran pleidleisio cenedlaethol yn cael ei ostwng i 16 oed, y dylai'r oedran y gallwch chi ddod yn Gynghorydd Cyngor Cymuned a Thref gael ei ostwng i'r un oedran. |
| 4.3 | Nid yw gwaith Cynghorau Cymuned a Thref i'w weld yn amlwg o gwbl.<br><br>Mae angen sylweddol i gynyddu ymwybyddiaeth o'u bodolaeth a'u gwaith yn eu cymunedau, yn ogystal ag angen i ymgysylltu â chymunedau wrth wneud penderfyniadau.<br><br>Dylai pob Cyngor Cymuned a Thref roi cyhoeddusrwydd i'w gwaith ac ymgysylltu â'u cymunedau - mae ymgysylltu yn swyddogaeth allweddol ac yn un o nodweddion eu rôl. | Credwn y dylai fod yn ofynnol yn gyfreithiol i Gynghorau Cymuned a Thref gynnal o leiaf un cyfarfod cyhoeddus (cymuned / tref) y flwyddyn.<br><br>Credwn y dylai cynghorau lleol ddilyn cylch o ymgysylltu, cynllunio, cyflawni ac adrodd.<br><br>Rydym yn argymell y dylai'r holl Gynghorau Cymuned a Thref ddarparu taflen wybodaeth gyda'u rhybudd precept, |

| | | |
|---|---|---|
| | Ceir enghreifftiau da o fannau lle mae'r gymuned wedi cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau (trwy adroddiadau blynyddol, cyfarfodydd tref ayyb), ond mae yna ardaloedd lle mae hyn yn ddiffygiol a lle mae angen gwneud mwy.<br><br>Dylai cynghorau cymuned fod yn nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud dros y flwyddyn i ddod fel rhan o'u penderfyniadau cyllideb. | gan nodi beth yw eu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn.<br><br>Dylai fod gan bob Cyngor Cymuned a Thref ddyletswydd hefyd i adrodd yn flynyddol yn egluro'r hyn y maent wedi'i gyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf a'r hyn y maent yn cynllunio gwario praesept y flwyddyn arno yn y dyfodol.<br><br>Hoffem weld cynghorwyr yn ogystal â chynghorau yn cael eu dal i gyfrif, trwy ddarparu adroddiadau cryno i'w hetholwyr am yr hyn y maent wedi'i gyflawni. Fel isafswm, dylai fod yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi eu cofnod presenoldeb yn yr un modd ag y cyhoeddir eu cofnod cydnabyddiaeth.<br><br>Yn olaf, dylai Cynghorau Cymuned a Thref ystyried cynnwys eu cymuned yn barhaus. Rydym yn argymell bod Cynghorau Cymuned a Thref yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel mecanwaith allweddol ar gyfer cyflawni hyn. |
| 4.4 | Mae angen i strwythurau llywodraethu priodol fod yn eu lle i ddal Cynghorau Cymuned a Thref i gyfrif.<br><br>Mae'n bwysig fod Cynghorau Cymuned a Thref yn atebol am yr arian cyhoeddus y maent yn ei wario a bod hwn yn cael ei reoli'n dda.<br><br>Credwn fod y gyfundrefn archwilio gyfredol yn gymesur â swm yr arian dan sylw. | Credwn fod y drefn archwilio a ddatblygwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn gymesur ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.<br><br>Er gwaethaf hyn, mae llawer o Gynghorau Cymuned a Thref yn methu archwiliad ar faterion sylfaenol bob blwyddyn. Rydym yn argymell darparu mwy o gefnogaeth i Gynghorau Cymuned a Thref llai er mwyn eu helpu i gyflawni gofynion archwilio. |
| 4.5 | Cafwyd llawer o dystiolaeth ynghylch ymddygiad rhai cynghorwyr, ymddygiad nad yw'n ddymunol i aelod etholedig, nac yn ymddygiad priodol tuag at staff. | Credwn fod y broses safonol ar gyfer cwynion am y cod ymddygiad yn ddigonol a dylai hwn barhau yn ei le.<br><br>Credwn y bydd cydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad yn cael ei orfodi'n well gan yr hyfforddiant gorfodol a grybwyllwyd mewn argymhelliad blaenorol.<br><br>Rydym yn argymell, er mwyn diogelu cynghorwyr eraill, a staff ac er mwyn gweithredu'r cyngor yn ffafriol, bod |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymddygiad presennol yn cael ei ystyried yn ffactor mewn 'Cymhwyster ar gyfer Swydd', yn enwedig gorchmynion cyfreithiol neu ddedfrydau cyfredol sy'n ymwneud ag ymddygiad annerbyniol. |
| 4.6 | Mae yna ddiffyg pwerau i gefnogi'n ffurfiol, ac fel cam eithaf, ymyrryd mewn cyngor cymuned neu dref os yw'n profi methiannau o ran gwasanaeth neu fethiannau corfforaethol. Mae hyn yn dod yn fwy pwysig, yn enwedig os ydynt am gymryd mwy o rôl darparu gwasanaeth yn seiliedig ar le a ragwelir ar eu cyfer. | Dylai fod rhywfaint o fesurau diogelu yn eu lle ond dylai'r cyfrifoldeb hwn aros gyda Llywodraeth Cymru gan nad yw Cynghorau Cymuned a Thref yn israddol i Awdurdodau Lleol.<br><br>Rydym yn argymell y dylai'r pwyslais fod ar gefnogaeth, gydag ymyrraeth fel y dewis olaf yn unig, a dylai fod yn gymesur â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor Cymuned a Thref. |